CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:

Y PWYLLGOR ARCHWILIO

ADRODDIAD 09-02 – Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr yn unol ag adran 102 (1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

ADNEWYDDU A GWAREDU EIDDO A DDELIR GAN Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU

CYNNWYS	**Tudalen**
Rhagarweiniad	1
Adnewyddu eiddo	3
Gwaredu eiddo	
Crynodeb o'r argymhellion	
Sylwadau clo	
ATODIADAU	
Atodiad A: Trafodion perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion y dystiolaeth (dydd Iau 18 Gorffennaf 2002)	
Atodiad B: Nodyn oddi wrth Adran GIG Cymru dyddiedig 23 Medi 2002 ynghylch fframwaith strategol yr ystadau cenedlaethol	
Atodiad C: Nodyn oddi wrth Adran GIG Cymru dyddiedig 23 Medi 2002 ynghylch gwaredu'r ystâd weddillol	
Atodiad D: Nodyn oddi wrth Adran GIG Cymru dyddiedig 10 Hydref 2002 ynghylch yr ystâd weddillol a ddelir gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru	
Atodiad E: Y Pwyllgor Archwilio	

Rhagarweiniad

1. Mae ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd GIG Cymru yn berchen neu'n defnyddio tua 900 eiddo a mwy na 1000 hectar o dir. Amcangyfrifir y byddai'r ystâd yn werth tua £270 miliwn ar y farchnad, ac y byddai ei ddisodli gan gyfleusterau modern yn costio £4 biliwn. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae buddsoddiad cyfalaf y Cynulliad, a'r Swyddfa Gymreig o'i flaen, mewn adeiladau ac offer wedi costio rhwng £70 miliwn a £130 miliwn y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, mae chwarter yr holl safleoedd iechyd yng Nghymru wedi'u gwaredu. Trwy werthu'r eiddo hyn, mae'r Cynulliad, a'r Swyddfa Gymreig gynt, wedi codi tua £53 miliwn ar gyfer ei ailfuddsoddi mewn gofal iechyd.

2. Ar sail adroddiad ar adnewyddu a gwaredu eiddo'r GIG, a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru,[1] derbyniwyd tystiolaeth gan Ann Lloyd, Pennaeth Adran GIG Cymru, sy'n gyfrifol ar ran y Cynulliad am reoli'r ystâd yn strategol; Neil Jones, y Prif Syrfëwr Ystadau yn Is-adran Ystadau'r Cynulliad; a Neil Davies, Cyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru. Mae'r ymchwiliad hwn yn dilyn ein hadroddiad cynharach[2] ar berfformiad yr ystâd a sut y caiff ei reoli. Seiliwyd y ddogfen hon ar adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2001 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.[3] Gyda'i gilydd, mae'r ddau ymchwiliad yn darparu asesiad cyflawn o'r modd y caiff yr ystâd ei reoli yn strategol ac yn weithredol.

3. Mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar ddau brif faes a ddeilliodd o'n hymchwiliadau:

   - adnewyddu eiddo; a

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru *Adnewyddu a gwaredu eiddo a ddelir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Gorffennaf 2002
[2] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 07-02, *Rheoli ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*, Awst 2002
[3] Archwilydd Cyffredinol Cymru *Rheoli ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 28 Tachwedd 2001

- gwaredu eiddo.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein prif ganfyddiadau a chasgliadau, ynghyd â nifer o argymhellion ar gyfer Adran GIG Cymru a chyrff y GIG sy'n dal eiddo.

Adnewyddu eiddo

Fframwaith strategol

5. Pan ymddangosodd Mrs Lloyd, Pennaeth Adran GIG Cymru, gerbron y Pwyllgor ym mis Ionawr 2002, pwysleisiodd bwysigrwydd meddu ar fframwaith strategol ar gyfer yr ystadau cenedlaethol, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r ystâd ac er mwyn targedu buddsoddiadau'n briodol. Ar y pryd, roedd hi o'r farn y byddai'r fframwaith yn barod ym mis Mehefin. Serch hynny, pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2002, dywedodd y cafwyd oedi yn y gwaith o lunio'r fframwaith, o ganlyniad i salwch ymysg staff, a'r awydd i daro'r hoelen ar ei phen y tro cyntaf. Dywedodd fod Adran GIG Cymru yn parhau i gydweithio ag ymddiriedolaethau'r GIG ar eu strategaethau ar gyfer ystadau eu hunain, fel y gellir bwrw ati â'r cynigion sydd ynddynt heb golli momentwm. Yn ogystal, mae Adran GIG Cymru eisoes yn cynnal adolygiadau perfformiad ac yn monitro sut y mae'r ymddiriedolaethau yn perfformio yn erbyn y cynigion a amlinellir yn eu strategaethau.[4] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru y byddai'r fframwaith yn dod i rym ar 1 Medi.[5] Yn ôl tystiolaeth ategol a ddarparodd Adran GIG Cymru, mae'r fframwaith wedi'i fireinio ymhellach ers gwrandawiad y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Bydd fersiwn derfynol y fframwaith yn cael ei hadolygu yng nghyfarfod grwp y Cynulliad Cenedlaethol a Phrif Weithredwyr yr ymddiriedolaethau. Disgwylir y bydd y ddogfen ar gael yn hwyrach yn ystod yr hydref.[6] Rydym wedi ein siomi â chynnydd araf y gwaith o gwblhau a

[4] C 2
[5] C 3
[6] Tystiolaeth ategol a ddarparodd Adran GIG Cymru ar y fframwaith strategol (Atodiad B)

chyhoeddi fframwaith strategol cenedlaethol yr ystadau. Rydym yn pryderu am effaith yr oedi hwn ar allu'r GIG i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyllid sydd ar gael iddo.[7]

6. Mae Adran GIG Cymru wrthi'n adolygu strategaeth gwasanaeth sy'n amlinellu'n glir yr hyn sy'n rhaid digwydd yn ystod pum mlynedd nesaf er mwyn moderneiddio ac adnewyddu'r gwasanaeth iechyd. Cyhoeddir y strategaeth hon ar ddechrau 2003. Bydd hyn yn caniatáu cyd-destun mwy synhwyrol i ymddiriedolaethau gynllunio eu hystadau a chynllunio'r defnydd a wnant ohonynt, er mwyn adlewyrchu arferion modern ym myd meddygaeth.[8] Mae Adran GIG Cymru yn cydnabod bod angen seilio hyn ar strategaeth ariannol. Felly, am y tro cyntaf yng Nghymru, mae'r Adran wedi datblygu fframwaith gwasanaeth a chyllid ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bwriedir cyhoeddi'r fframwaith hwn ym mis Hydref. Bydd yn crisialu'r hyn y gellir neu na ellir ei gyflawni a'i fforddio o'r rhaglen gyfalaf. Bydd hefyd yn dangos beth ddylai ddigwydd i achosion busnes sy'n llai o flaenoriaeth.[9] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru ei bod yn allweddol bod prosiectau cyfalaf sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn ddigon hyblyg i gwrdd â'r anghenion cyfnewidiol a allai ddatblygu yn ystod oes cynllunio a rhedeg y prosiect.[10]

7. Rydym yn croesawu ymdrech Adran GIG Cymru i baratoi strategaethau ariannol a gwasanaeth sy'n cysylltu â'r fframweithiau ystadau ar gyfer GIG Cymru. **O fewn y cyd-destun strategol newydd hwn, rydym yn argymell bod Adran GIG Cymru yn cydweithio'n glòs â chyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo, er mwyn sicrhau canlyniadau go iawn wrth foderneiddio a gwella'r ystâd.**

Rhaglen gyfalaf

8. Rhwng 1992-03 a 2000-01, lleihaodd cyfanswm y cyllid cyfalaf o £128 miliwn y flwyddyn i £73 miliwn y flwyddyn.[11] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru wrthym fod yr angen am waith cynnal-a-chadw ac am ailosod offer wedi cynyddu o

[7] C 4
[8] C 8
[9] C 41
[10] C 18

ganlyniad uniongyrchol i'r diffyg hwn mewn cyllid. Ailadroddodd hi y darparwyd £40 miliwn ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf er mwyn ailosod offer a oedd wedi'i ddefnyddio am fwy na deng mlynedd.[12] Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach wedi ailgychwyn y rhaglen gyfalaf. Mae'r rhan fwyaf o arian y rhaglen gyfalaf yn cael ei wario ar adnewyddu offer cyfalaf mawr, ar adnewyddu'r rhannau hynny o'r ystâd sydd â phrobemau penodol fel eu bod yn addas at eu diben, ac ar ailgartrefu gwasanaethau lleol sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau hen ffasiwn.[13] Rydym yn pryderu efallai nad yw ymddiriedolaethau wedi bod yn cyflwyno achosion busnes am brosiectau cyfalaf oherwydd nad ydynt yn disgwyl derbyn cyllid ar eu cyfer. Gallai hyn yn ei dro olygu bod llai o arian yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau cyfalaf. Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru y rhoddir blaenoriaeth i gyllid cyfafaf yn y dyfodol o fewn y fframweithiau strategol a amlinellir uchod.[14]

9. Tynnodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sylw at rai o'r problemau a brofwyd wrth reoli prosiectau adeiladu mawr. Er enghraifft, Ysbyty Brenhinol Morgannwg a gwblhawyd flwyddyn yn hwyr ac a gostiodd £20 miliwn yn fwy na'r gyllideb ar ei gyfer.[15] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru wrthym y bydd y swyddfeydd rhanbarthol newydd sy'n cael eu creu o dan gynllun y GIG yn meddu ar fwy o gyfrifoldebau o ran rheoli prosiectau cyfalaf. Bydd y swyddfeydd rhanbarthol yn darparu cymorth i ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill wrth iddynt baratoi achosion busnes ac wrth iddynt fwrw ati â chynlluniau sy'n derbyn nawdd. Yn ogystal, atgyfnerthir Adran GIG Cymru fel y gall ddarparu cymorth a chanllawiau ar reoli ystadau a chyfalaf i'r rheini sydd eu hangen.[16] Mae Adran GIG Cymru yn datblygu polisi adeiladu, dylunio a chaffael sy'n amlinellu'r arferion da sydd ar gael i ymddiriedolaethau. Hefyd, mae'r Cynulliad wedi sefydlu fforwm adeiladu sy'n cynnal seminarau ar gyfer rheolwyr ystadau ac aelodau'r byrddau. Mae'r seminarau hyn yn tynnu sylw at yr arferion gorau a amlinellir yn yr adroddiadau ar adeiladu y cyfeiriwyd

[11] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.4
[12] C 5
[13] C 7
[14] C 8
[15] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.8

atynt yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.[17] Rydym yn falch bod y rôl rheoli prosiect yn cael ei atgyfnerthu, ac rydym yn croesawu'r camau y mae Adran GIG Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo arferion da ym maes adeiladu trwy'r holl GIG yng Nghymru.

Y Fenter Cyllid Preifat

10. Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru y cafwyd twf mewn ceisiadau ar gyfer cynlluniau sy'n cael eu cyllido gan y Fenter Cyllid Preifat (PFI), o ganlyniad i'r dirywiad yn y rhaglen gyfalaf yn ystod y 1990au. Rhaid profi gwerth am arian pob cynllun cyfalaf yn erbyn gofynion PFI, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y prosiectau PFI sydd wedi'u comisiynu. Nododd Pennaeth Adran GIG Cymru y gellid defnyddio trefniadau'r bartneriaeth cyhoeddus-preifat a'r trefniadau gyda sefydliadau gwirfoddol ac elusennol yn fwy effeithiol yng Nghymru.[18] **Rydym yn argymell bod Adran GIG Cymru yn codi ymwybyddiaeth ymysg ymddiriedolaethau ynghylch y gallu i gydweithio â sefydliadau gwirfoddol neu elusennol er mwyn caffael adeiladau mwy addas ar gyfer darparu gofal iechyd.**

11. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod gan yr ymddiriedolaethau brosiectau PFI â gwerth cyfalaf o £110 miliwn, a'u bod wedi ymrwymo i wario £13 miliwn y flwyddyn arnynt.[19] Roeddem ni eisiau gwybod sut y gellid mesur llwyddiant y prosiectau hyn, gan gynnwys mesur a fyddant yn darparu gwerth am arian yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru y gellid mesur eu llwyddiant trwy weld a ydynt yn cyflawni'r portffolio a nodir yn yr achos busnes o ran defnyddio'r lle a'r staff sydd ar gael iddynt.[20] Ychwanegodd fod costau blynyddol y prosiectau PFI sydd ar y rhestr yn cynnwys costau rhedeg. Nid yw hyn yn ystyriaeth mewn prosiectau caffael cyfalaf traddodiadol.[21] Nododd hefyd fod yr amserlen ar gyfer profi gwerth am arian prosiectau PFI yn dibynnu ar faint yr adeilad.

---

[16] C 11
[17] C 12; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.9
[18] C 6
[19] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.15 a Ffigur 4
[20] C 19

Er enghraifft, yn achos prosiect o faint canolig â disgwyliad oes o 25 i 30 mlynedd, byddai'r prosiect yn cael eu brofi ar hyd yr amser hwnnw.[22] **Rydym yn argymell bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystyried archwilio prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy'r fenter PFI yn GIG Cymru, er mwyn asesu a yw'r manteision a haerwyd yn cael eu gwireddu.**

12. Holwyd Pennaeth Adran GIG Cymru ynghylch materion rhannu elw a throsglwyddo risg, sydd ymhlyg mewn prosiectau'r fenter cyllid preifat. Sicrhaodd ni fod y GIG wedi symud ymlaen o'r contractau PFI cynnar, a bod y rheolau ar gyfer rhannu elw a throsglwyddo risg bellach yn llawer cliriach nag yr oeddynt ddwy flynedd yn ôl.[23] Yn ogystal, roedd rhannu elw yn elfen benodol o'r contract ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, er nad oedd hynny'n arferiad ar y pryd.[24] **Rydym yn argymell bod contractau ar gyfer y fenter cyllid preifat yn GIG Cymru yn dilyn yr arferion gorau diweddaraf ac, yn enwedig, yn rhannu elw a throsglwyddo risg mewn ffyrdd sy'n sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr.**

Monitro gwariant cyfalaf

13. O ran y system monitro gwariant cyfalaf, mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod ymddiriedolaethau yn aml yn adrodd rhagolygon o gostau alldro cynlluniau unigol sy'n uwch na'r costau y mae'r ymddiriedolaethau eu hunain, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, yn eu cofnodi yn y pen draw.[25] Dywedodd Cyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru nad yw hyn o reidrwydd yn beth gwael, gan ei bod yn bwysig bod y rhagolygon yn cynnwys unrhyw rwymedigaethau ariannol posibl sy'n ychwanegol at y cost a gymeradwywyd. Mae'r problemau yn codi pan fydd cost derfynol y cynllun yn uwch na'r ffigurau a gymeradwywyd, fel yn achos Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Roeddem yn falch o glywed Cyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru yn dweud bod y gwaith o fonitro prosiectau wedi gwella'n sylweddol, a bod

[21] C 20
[22] C 37
[23] C 30
[24] C 36
[25] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.24

Ystadau Iechyd Cymru bellach o'r farn bod 100 y cant o'r adroddiadau yn cael eu cwblhau ar amser. Mae cyfarfodydd unigol chwarterol rhwng staff y Cynulliad, Ystadau Iechyd Cymru ac ymddiriedolaethau unigol hefyd yn werthfawr, a chânt eu defnyddio i annog y defnydd o dechnegau caffael adeiladu mwy arloesol.[26]

14. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi nad yw'r £50 miliwn o gyfalaf dewisol y mae'r ymddiredolaethau yn ei ddefnyddio yn cael ei fonitro'n uniongyrchol, fel y gwneir gyda gwariant cyfalaf mawr, gan Adran GIG Cymru. Dyma'r sefyllfa er gwaetha'r ffaith ei fod yn 50 y cant o gyfanswm y gyllideb gyfalaf. Mae ei adroddiad yn argymell llunio system ar gyfer monitro cyllid dewisol.[27] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru fod y GIG wedi gweithredu ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol, a'i bod yn ofynnol i ymddiriedolaethau, ers mis Ebrill 2002, anfon manylion gyda'i adroddiadau chwarterol yn nodi at ba ddibenion y defnyddir eu cyllid dewisol. Serch hynny, ychwanegodd fod yr ymddiriedolaethau wedi bod yn defnyddio eu cyllid cyfalaf i'w cynorthwyo'u hunain am gyfnodau byr pan y maent yn profi anawsterau gyda'u cyfrifon refeniw. Mae hyn yn arwain at broblemau yn cyllido cynlluniau cyfalaf. Fe sicrhaodd ni fod yr ymddiriedolaethau bellach yn gorfod cael caniatâd cyn trosglwyddo cyfalaf i arian refeniw er mwyn cynorthwyo'u perfformiad yn ystod y flwyddyn.[28] Roeddem yn anesmwyth o glywed bod ymddiriedolaethau wedi bod yn esgeuluso cyflwr eu hystadau er mwyn arbed arian, gan ein bod yn gwybod bod hyn yn golygu problemau mwy yn y dyfodol. **Rydym yn argymell bod Adran GIG Cymru yn monitro'n glòs y trefniadau a gyflwynwyd i reoli'r graddau y mae ymddiriedolaethau yn trosglwyddo cyllid cyfalaf i arian refeniw.**

15. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sylwadau ar y problemau y mae ymddiriedolaethau yn eu profi wrth i Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi ailasesu treth ar werth ar gynlluniau cyfalaf unigol.[29] Roeddem yn pryderu nad yw'r Cynulliad

[26] C 48
[27] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, blwch y pwyntiau allweddol, tudalen 19
[28] C 49
[29] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.24

wedi bod yn adennill y cyllid hwn. Esboniodd Pennaeth Ystadau Iechyd Cymru'r sefyllfa. Dywedodd mai gwraidd y broblem oedd bod 17.5 % o TAW yn cael ei ychwanegu at yr elfen adeiladu wrth lunio achosion busnes. Mewn gwirionedd, gellir adennill peth o'r TAW, ond ni ellir gwybod faint yn union nes y caiff y cyfrifon terfynol eu cwblhau. Cynnig Adran GIG Cymru yw y dylid neilltuo'r arian TAW a'i ad-dalu pan fydd yr elfennau hynny ohoni y gellir eu hadennill wedi'u pennu'n derfynol. Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru fod yr holl gyllid oedd i fod i gael ei adennill bellach wedi cael ei adennill, ac y bydd y dull newydd o weithio yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyson.[30] Rydym yn croesawu camau i fabwysiadu dull mwy cadarn a chyson o ymdrin â'r materion hyn.

Gwaredu eiddo

Perfformiad wrth waredu eiddo gweddillol presennol

16. Cyn i'r ymddiriedolaethau GIG cyntaf gael eu sefydlu yng Nghymru ym 1992, Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd yn berchen ar bob eiddo'r GIG yng Nghymru, er eu bod yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr awdurdodau iechyd. Wrth i'r ymddiriedolaethau gael eu sefydlu, rhwng 1992 a 1996, roedd yr awdurdodau iechyd yn parhau i reoli'r eiddo hynny na throsglwyddwyd hwy i feddiant yr ymddiriedolaethau, a hynny ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Roedd yr ystâd a adawyd o dan reolaeth yr awdurdodau iechyd, ar y cyfan, yn cynnwys eiddo a ystyriwyd yn ddiangen i'r ddarpariaeth gofal iechyd yn y tymor hir. Yr ystâd weddillol oedd yr enw a roddwyd ar yr eiddo hyn. Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau'r Ysgrifenydd Gwladol i'r Cynulliad ym 1999, daeth y Cynulliad yn berchen ar asedau eiddo GIG Cymru nad ydynt ym meddiant yr ymddiriedolaethau. Parhaodd yr awdurdodau iechyd i reoli'r asedau hyn, sef yr ystâd weddillol, ar ran y Cynulliad o dan bwerau dirprwyol.[31]

[30] C'au 46 a 47
[31] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.6 a 3.7

17. Mae ffigurau 6 a 7 adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos bod 51 eiddo gweddillol, a enwyd ym 1995, yn dal ym meddiant yr awdurdodau iechyd. Maent yn werth cyfanswm o £47 miliwn.[32] Roeddem yn pryderu ynghylch y rhesymau am yr oedi wrth waredu'r eiddo hyn, yn enwedig yn ardal Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, lle ceir dros hanner yr ystâd weddillol.[33] Cytunodd Pennaeth Adran GIG Cymru fod anghysondebau yng Ngogledd Cymru. Dywedodd y byddai'n trafod y rhesymau pam fod yr awdurdod iechyd yn araf yn gwaredu'r eiddo yng Ngogledd Cymru gyda chynrychiolwyr yr awdurdod yn ystod eu hadolygiad blynyddol.[34] Mae tystiolaeth ategol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn nodi bod Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru wedi etifeddu nifer fawr o eiddo yn yr ystâd weddillol, ond heb gynlluniau clir ar sut i gymeryd eu lle. Byddai ailddarparu'r gwasanaethau yn dibynnu ar ddarparu cyllid at y perwyl hwn. Rydym yn nodi bod yr Awdurdod Iechyd, ar y cyd ag Ystadau Iechyd Cymru, yn ymdrechu i waredu ei ystâd weddillol cyn gynted â phosibl. Serch hynny, mae materion anodd o ran cynllunio a marchnata anodd yn parhau i gymhlethu'r gwaith.[35]

18. Roeddem hefyd yn awyddus i wybod pryd y byddai'r gwaith o waredu'r ystâd weddillol yn cael ei gwblhau.[36] Mae tystiolaeth ategol gan Adran GIG Cymru yn adrodd bod dros hanner (23) y 44 eiddo sydd yn yr ystâd weddillol ac sy'n dal ym meddiant y Cynulliad wedi'u datgan yn ddiangen, ac y bwriedir eu gwaredu. Disgwylir i rai eiddo y mae ymddiriedolaethau yn eu defnyddio ar hyn o bryd fod o ddefnydd gofal iechyd am y tymor canolig i'r tymor hir. Felly, mae'r ymddiriedolaethau hynny yn paratoi achosion busnes er mwyn asesu a ddylid breinio'r eiddo hynny ym meddiant yr ymddiriedolaethau sy'n eu defnyddio.[37] **Rydym yn argymell bod Pennaeth Adran GIG Cymru yn adrodd i ni ymhen 12 mis ynghylch y cynnydd a gafwyd yn y gwaith o waredu'r ystâd weddillol sy'n dal ar ôl.**

---

[32] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.8 a ffigurau 6 a 7
[33] C'au 52 - 58
[34] C 59
[35] Tystiolaeth ategol ynghylch yr ystâd weddillol gan Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru (Atodiad D)
[36] C 62

19. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at achosion penodol o waredu lle costiodd y broses waredu swm sylweddol o arian, yn enwedig yn achos Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych.[38] Roedd Pennaeth Adran GIG Cymru a Chyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru yn hyderus bod gwersi wedi'u dysgu o brofiad gwerthu Ysbyty Gogledd Cymru, a bod y wybodaeth hon wedi'i rhannu trwy'r holl wasanaeth iechyd.[39] Nododd y Prif Syrfëwr Ystadau yn Is-adran Ystadau'r Cynulliad fod pob un o'r achosion anodd o waredu wedi profi ei broblemau unigryw ei hun, ac y bu angen mynd i'r afael â'r rheini. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg gwaith cynnal-a-chadw parhaus yn Ysbyty Gogledd Cymru, a oedd wedi achosi cyflwr yr adeilad i ddirywio'n gyflym; problemau gyda mynediad ffordd at Ysbyty Dewi Sant ym Mangor; a maint bach y safle o gwmpas adeilad Ysbyty Heol-y-Prior yng Nghaerfyrddin, a oedd yn golygu prinder cyfleoedd datblygu.[40] Holwyd a oedd Cadw yn rhwystro rhai achosion o geisio gwaredu trwy restru rhai adeiladau ysbyty, er enghraifft Ysbyty Heol-y-Prior. Serch hynny, sicrhaodd y Prif Syrfëwr Ystadau yn Is-adran Ystadau'r Cynulliad ni nad oedd Cadw wedi bod yn rhwystro'r gwaith o gwbl. Roeddent wedi penderfynu ar ddechrau'r broses waredu pa adeiladau yn yr ystâd weddillol ddylai gael eu rhestru.[41] Er ein bod yn sylweddoli y gall gwaredu rhai eiddo unigol yn yr ystâd weddillol achosi anawsterau sylweddol, **rydym yn argymell bod Adran GIG Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na cheir achos arall lle mae cost y gwerthu yn sylweddol uwch nag elw'r gwerthiant.**

Trefniadau ar gyfer gwaredu'r eiddo gweddillol sy'n dal ym meddiant y GIG

20. O fis Ebrill 2002 ymlaen, mabwysiadodd uned gorfforaethol arbenigol o fewn Ystadau Iechyd Cymru y cyfrifoldeb am reoli'r broses o waredu'r ystâd weddillol. Y pum awdurdod iechyd oedd yn gyfrifol am y gwaith hwn.[42] Roedd Cyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru yn hyderus bod ganddynt ddigon o adnoddau ar gyfer y rôl

---

[37] Tystiolaeth ategol ynghylch yr ystâd weddillol gan Adran GIG Cymru (Atodiad C)
[38] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.40 a ffigurau 15 a 17
[39] C 91
[40] C'au 91 - 98
[41] C 99
[42] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.10

hwn, ac y byddent yn medru gwaredu'r holl eiddo y bwriadwyd eu gwaredu erbyn 2006. Croesawodd Pennaeth Adran GIG Cymru y ffaith fod sefydliad sy'n atebol i'r Cynulliad yn archwilio cynlluniau gwaredu. Roedd o'r farn bod hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y sefydliadau bod gwaredu'r eiddo hyn yn fater sy'n cael ei ystyried yn ddifrifol.[43]

21. Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cofnodi ei bod yn cymryd 50 y cant yn hirach i waredu eiddo yng Nghymru ag ydyw yn Lloegr, ar gyfartaledd.[44] Tynnodd Pennaeth Adran GIG Cymru sylw at y ffaith fod gan Gymru farchnad cwbl wahanol i'r farchnad sydd yn Lloegr. Serch hynny, mae Ystadau Iechyd Cymru yn cydweithio gydag Ystadau'r GIG yng Lloegr er mwyn enwi rhanbarthau yn Lloegr sydd â marchnad debycach, fel y gellir gwneud cymhariaeth fwy ystyrlon.[45]

22. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos bod y derbyniadau a gafwyd o werthu eiddo yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn llawer is na'r targed.[46] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru ei bod hi o'r farn y bu'r targedau yn weddol amrwd yn y gorffennol, ac efallai y buwyd yn rhy optimistaidd wrth eu pennu. Roedd yn hyderus bod gan Ystadau Iechyd Cymru bellach well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r farchnad, ac y dylai hyn olygu rhagolygon mewnol mwy cywir yn y dyfodol.[47]
Rydym yn argymell bod Adran GIG Cymru, gyda chymorth Ystadau Iechyd Cymru, yn datblygu targedau gwaredu ar gyfer eiddo GIG Cymru fel mater o frys. Dylai'r targedau hyn fod yn rhai ymestynnol a realistig, a dylid gwneud pob ymdrech posibl i leihau'r amser cyfartalog a gymerir i waredu eiddo sydd dros ben.

Enwi eiddo diangen arall sy'n warged ar gyfer ei waredu.

23. Mae canllawiau'r GIG yn cynghori ymddiriedolaethau'r GIG i ddal eu gafael ar eiddo sy'n hanfodol ar gyfer darparu eu gwasanaethau yn unig. Mae hefyd yn eu cynghori i

[43] C'au 67 a 68
[44] Q 102; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.45
[45] C'au 67 a 103
[46] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.36 a Ffigur 13

fynd ati'n rheolaidd i nodi a ydyw eu heiddo yn hanfodol neu beidio yn y tymor hir.[48] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru y bydd yr uned gorfforaethol arbenigol newydd o fewn Ystadau Iechyd Cymru yn helpu ymddiriedolaethau i enwi eiddo nad yw'n hanfodol, fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad parhaus a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2002.[49] Mae'r fframwaith hwn yn elfen allweddol o'r broses o reoli'r ystâd yn strategol, ac yn ein adroddiad blaenorol ar ystâd y GIG, rydym yn croesawu'r ffaith y cyflwynwyd ef.[50]

24. Rydym yn ymwybodol bod cau ysbytai yn fater sensitif mewn llawer o gymunedau, ac y ceir gwrthwynebiad lleol yn aml. Roeddem eisiau gwybod sut y gellid perswadio cymunedau o fanteision cau ysbytai penodol. Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru ei bod yn deall y sefyllfa. Dywedodd ei bod yn credu bod yn rhaid i'r sefydliad esbonio'n glir, trwy'r broses ymgynghori gyhoeddus ar newid darpariaeth i wasanaethau, sut beth fyddai'r gwasanaethau newydd a sut y gallai pobl gael gafael arnynt. Yn ogystal, er bod llawer o'r adeiladau hyn yn agos at galon pobl, efallai nad ydynt yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd modern.[51] Byddai pob newid i'r gwasanaethau yn cael eu datblygu gan y timau adnewyddu a fydd yn cael eu sefydlu ym mhob un o'r swyddfeydd rhanbarthol.[52] Rydym yn parhau i bryderu y gallai fod yn anodd perswadio pobl leol o'r angen am newid os yw eu gwasanaethau wedi'u symud ymaith a'u disodli gan rywbeth o safon is.[53]

25. Un mater y tynnodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ato oedd y ffyrdd y cymhellir ymddiriedolaethau i gadw cyn lleied â phosibl o eiddo yn eu meddiant, er enghraifft trwy godi taliadau cyfalaf.[54] Nododd Pennaeth Adran GIG Cymru fod y taliadau cyfalaf wedi cael effaith pan gyflwynwyd hwy am y tro cyntaf, gan bod yr

---

[47] C 90
[48] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.3 a 3.13
[49] C 70
[50] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 07-02, *Rheoli ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru*, Awst 2002, paragraff 12
[51] C 72
[52] C 73
[53] C'au 76 - 78
[54] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.22 i 3.28

ymddiriedolaethau bod yn rhaid iddynt dalu chwech y cant ar bob eiddo yn eu meddiant. Serch hynny, dros amser roedd effaith y taliadau cyfalaf wedi lleihau wrth i'r ymddiriedolaethau ddod i arfer â'u talu, ac felly collwyd ergyd y taliadau.[55] Roeddem hefyd eisiau gwybod a oedd taliadau cyfalaf yn gweithio o blaid cadw adeiladau hŷn yn hytrach na darparu rhai newydd. Cytunodd Pennaeth Adran GIG Cymru fod hyn yn wir, ond dywedodd fod angen i'r ymddiriedolaethau gydbwyso'r costau cynyddol gyda manteision i gleifion.[56] Rydym yn disgwyl i Adran GIG Cymru sicrhau bod codi taliadau cyfalaf ar asedau ystâd GIG Cymru yn gymhelliant ymarferol ac effeithiol i gyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo leihau nifer yr eiddo sydd yn eu meddiant.

26. Cymhelliant arall i ymddiriedolaethau enwi eiddo i'w waredu yw trwy gynyddu'r swm y gallant ei gadw o werthu'r eiddo. Mae hyn wedi cynyddu o £100,000 i £1 miliwn neu £2 miliwn, gan ddibynnu ar faint yr ymddiriedolaeth.[57] Dywedodd Pennaeth Adran GIG Cymru fod yr ymddiriedolaethau wedi ymateb yn bositif i'r cynnydd yn y symiau hyn.[58] Roeddem yn pryderu y gellid achosi problemau i raglen gyfalaf ehangach y GIG os oedd rhai ymddiriedolaethau yn cael cadw mwy o arian o werthiant nac eraill. Serch hynny, sicrhaodd Pennaeth Adran GIG Cymru ni nad oedd hyn yn broblem.[59]

[55] C 82
[56] C 83
[57] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.26 i 3.28
[58] C 82
[59] C 85

27. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a dderbyniodd sêl bendith Pennaeth Adran GIG Cymru, yn amcangyfrif y gallai eiddo â gwerth posibl o £30 miliwn ar y farchnad fod ar gael i'w waredu. Gellid gwneud hyn trwy resymoli pellach ar eiddo anaddas ac eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon. Mae hyn yn ychwanegol at yr eiddo hynny y mae cyrff iechyd eisoes wedi'u henwi fel eiddo nad oes ei angen bellach.[60] Serch hynny, nododd Cyfarwyddwr Ystadau Iechyd Cymru na fyddai'n fater syml o godi £30 miliwn, oherwydd bod yr ystâd hwn yn cynnwys 120 o adeiladau llai, canolfannau iechyd, clinigau a gorsafoedd ambiwlans. Mae pob un o'r eiddo hyn yn werth llai na £100,000 yr un.[61] Er ein bod yn sylweddoli y byddai'n rhaid i'r GIG weithio'n galed i ryddhau'r ystâd nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, ac y byddai hynny'n golygu llawer o adeiladau, gellid codi symiau sylweddol o arian er lles y ddarpariaeth gofal iechyd yng Nghymru. **Rydym yn argymell bod y GIG yn mynd ati'n fywiog i enwi eiddo anaddas ac eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, er mwyn eu gwaredu. Rydym hefyd yn argymell bod Pennaeth Adran GIG Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ymhen 12 mis ar yr hyn a gyflawnwyd tuag at wireddu'r £30 miliwn ychwanegol.**

Crynodeb o'r argymhellion

28. Yn sgil y canfyddiadau a'r casgliadau hyn, rydym ni yn argymell y canlynol:

i) **o fewn y cyd-destun strategol newydd hwn, bod Adran GIG Cymru yn cydweithio'n glòs â chyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo, er mwyn sicrhau canlyniadau go iawn wrth foderneiddio a gwella'r ystâd;**

ii) **bod Adran GIG Cymru yn codi ymwybyddiaeth ymysg ymddiriedolaethau ynghylch y gallu i gydweithio â sefydliadau gwirfoddol neu elusennol er mwyn caffael adeiladau mwy addas ar gyfer darparu gofal iechyd;**

[60] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.21
[61] C 74

iii) **bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystyried archwilio prosiectau sy'n cael eu cyllido trwy'r fenter PFI yn GIG Cymru, er mwyn asesu a yw'r manteision a haerwyd yn cael eu gwireddu;**

iv) **bod contractau ar gyfer y fenter cyllid preifat yn GIG Cymru yn dilyn yr arferion gorau diweddaraf ac, yn enwedig, yn rhannu elw a throsglwyddo risg mewn ffyrdd sy'n sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr;**

v) **bod Adran GIG Cymru yn monitro'n glòs y trefniadau a gyflwynwyd i reoli'r graddau y mae ymddiriedolaethau yn trosglwyddo cyllid cyfalaf i arian refeniw;**

vi) **bod Pennaeth Adran GIG Cymru yn adrodd i ni ymhen 12 mis ynghylch y cynnydd a gafwyd yn y gwaith o waredu'r ystâd weddillol sy'n dal ar ôl;**

vii) **bod Adran GIG Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na cheir achos arall lle mae cost y gwerthu yn sylweddol uwch nag elw'r gwerthiant;**

viii) y**bod Adran GIG Cymru, gyda chymorth Ystadau Iechyd Cymru, yn datblygu targedau gwaredu ar gyfer eiddo GIG Cymru fel mater o frys. Dylai'r targedau hyn fod yn rhai ymestynnol a realistig, a dylid gwneud pob ymdrech posibl i leihau'r amser cyfartalog a gymerir i waredu eiddo sydd dros ben.**

ix) **bod y GIG yn mynd ati'n fywiog i enwi eiddo anaddas ac eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon, er mwyn eu gwaredu. Rydym hefyd yn argymell bod Pennaeth Adran GIG Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ymhen 12 mis ar yr hyn a gyflawnwyd tuag at wireddu'r £30 miliwn ychwanegol.**

Sylwadau clo

29. Mae moderneiddio a gwella ystâd GIG Cymru yn ganolog i ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion. Mae adnewyddu ystâd GIG Cymru yn her sylweddol i'r Cynulliad ac i gyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo. Mae'n allweddol bod yr adnoddau prin sydd ar gael ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd wedi'u targedu'n dda, a hynny'n gyson â'r blaenoriaethau strategol a'r anghenion lleol. Felly, rydym yn croesawu'r amryw o fentrau y mae Adran GIG Cymru a chyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo yn eu cynnal i wella'r cyd-destun strategol er mwyn adnewyddu'r ystâd, caffael cyfleusterau modern a monitro buddsoddiad cyfalaf.

30. Mae gwaredu eiddo dros ben yn allweddol ar gyfer rheoli ystâd GIG Cymru yn effeithiol, ac ar gyfer cyfrannu tuag at gyllido buddsoddiadau newydd. Er bod y perfformiad o ran sicrhau elw o werthiant wedi bod yn is na'r targed yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae trefniadau newydd o ran trefniadaeth, rheoli perfformiad a chymelldaliadau bellach wedi'u pennu. Dylai'r rhain ddechrau cael effaith o 2002-03 ymlaen. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn, a byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau sylweddol yn y dyfodol ym mherfformiad cyrff GIG Cymru sy'n dal eiddo wrth enwi a gwerthu eiddo sydd dros ben.

31. Mae llawer ar yr agenda er mwyn sicrhau bod ysbytai a chanolfannau iechyd o ansawdd cyson dda ar gael i bobl Cymru, sy'n gallu darparu gofal iechyd o'r radd flaenaf. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cynulliad a GIG Cymru yn y gwaith o reoli'r broses o foderneiddio a rhesymoli ystâd y GIG yng Nghymru.

Atodiad A

Cyfeirwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad A. Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael

Atodiadau B, C

Cyfeirwch at yr Adroddiad Saesneg ar gyfer Atodiad B ac Atodiad C. Nid oes fersiwn Cymraeg ar gael o'r Atodiadau.

Atodiad D

Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Mae pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n gywir ac yn drylwyr. Yn fras, rôl y Pwyllgor Archwilio fydd yw ymchwilio i'r adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12.

Dyma aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd 21 Mawrth 2002
Dafydd Wigley (Plaid Cymru) - Cadeirydd
Alun Cairns (Ceidwadwr)
Janet Davies (Plaid Cymru)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Alison Halford (Llafur)
Val Lloyd (Llafur)
Janice Gregory (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol)

Gellir cael gwybodaeth bellach am y Pwyllgor gan:

Claire Bennett
Clerc y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 02920 898155
E-bost: audit.comm@wales.gsi.gov.uk